



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynol Estron
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

DYDDIAD 23 Hydref 2020

GAN Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Goresgynol Estron (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (CE) rhif 1/2005 y Cyngor o 22 Rhagfyr 2004 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig;
- Rheoliad (CE) rhif 1255/97 y Cyngor o 25 Mehefin 1997 sy'n ymwneud â meini prawf y Gymuned ar gyfer safleoedd torri'r daith;
- Rheoliad (CE) rhif 1099/2009 y Cyngor o 24 Medi 2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd;
- Rheoliad (CEE) rhif 3254/91 y Cyngor o 4 Tachwedd 1991 sy'n gwahardd defnyddio trapiau dal coesau;
- Rheoliad (CE) 1772/94 y Comisiwn ar osod darpariaethau ynghylch cyflwyno crwyn a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu i'r Gymuned o rywogaethau anifeiliaid gwyllt penodol;
- Rheoliad (CE) 35/97 y Comisiwn ar osod darpariaethau ynghylch ardystio crwyn a nwyddau a ddaw o dan Rheoliad (CEE) rhif 3254/91 y Cyngor;
- Penderfyniad 97/602/EC y Cyngor (fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad 98/188/CE a Phenderfyniad 98/596/CE y Comisiwn) sy'n darparu 'rhestr werdd' o wledydd cymeradwy y caniateir mewnforio crwyn a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu o rywogaethau anifeiliaid gwyllt penodol ohonynt i'r UE; a
- Rheoliad (UE) rhif 1143/2014 o Senedd Ewrop a'r Cyngor o 22 Hydref 2014 ar atal a rheoli cyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynol estron.

Is-ddeddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwylt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019;
- Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw Rheoliadau 2020 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i amrywiaeth o is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r cytundeb ymadael ("y Protocol") mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynnol Estron.

Diben y diwygiadau

Cafodd problemau blaenorol o ran ymarferoldeb cyfraith yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynnol Estron eu datrys mewn offerynnau eraill yn 2018 a 2019. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gywiriadau i wneud y ddeddfwriaeth hon yn gyson â pholisi ehangach y llywodraeth o ran ymadawriad yr UE â'r UE ac i gwrdd â'i rhwymedigaethau o dan y Protocol.

Mae'r diwygiadau'n sicrhau y bydd deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a'r ddeddfwriaeth ddomestig dan sylw'n gweithio'n effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu ac y bodlonir yr un safonau o ran Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Goresgynnol Estron.

Mae Rheoliadau 2020 a'u Memorandwm Esboniadol, sy'n gosod manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

<https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/mrrlHiHA/SI-2020/>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi'i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Cymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi'u hystyried yn llawn; nid yw'r diwygiadau'n newid polisi. Gwnaed hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar y Cyfnod Pontio Ewropeaidd ym mis Mai.